**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025**

Cystadleuaeth 91 – Deuawd neu Driawd Cerdd Dant 19-25 oed

**Calon Lân, Gwyrosydd**

Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
Aur y byd na'i berlau mân;
Gofyn wyf am galon hapus,
Calon onest, calon lân.

Pe dymunwn olud bydol,
Adain fuan ganddo sydd;
Golud calon lân rinweddol
Yn dwyn bythol elw fydd.

Hwyr a bore fy nymuniad
Gwyd i'r nef ar adain cân
Ar i Dduw, er mwyn fy Ngheidwad,
Roddi imi galon lân.

Calon lân yn llawn daioni,
Tecach yw na'r lili dlos;
Dim ond calon lân all ganu -
Canu'r dydd a chanu'r nos.